



Cylchlythyr Mawrth 2021

Y Gyllideb

- 1) Penawdau'r Gyllideb
- 2) Trethi personol
- 3) Trethi corfforaethol
- 4) Cymorth Covid-19
 - a) *Unigolion*
 - b) *Hunangyflogedig*
 - c) *Busnesau*
- 5) Beth oedd ar goll?
- 6) Materion nodedig arall
- 7) Making Tax Digital/Gwneud Treth yn Ddigidol

Penawdau'r Gyllideb

“I would describe it as a packet of Polos budget. In some ways refreshing, but also full of holes”, Andy Burnham



DU i fenthyg record o £355 biliwn eleni

Cyllid sylweddol ar gyfer prosiectau seilwaith

Diffyg manylion cynhwysfawr ar sut bydd dyled y wlad yn cael ei ad-dalu

Prif gyhoeddiadau'r Gyllideb - Huw ac Aled

- 4^{ydd} **grant i'r hunangyflogedig** yn agored i'r newydd hunangyflogedig sydd wedi cwblhau ffurflen dreth ar gyfer 2019-2020
- Bydd **morgeisi 95%** ar gael i gefnogi'r farchnad dai (yn enwedig ar gyfer pobl sy'n prynu tŷ am y tro cyntaf)
- Mae'r Llywodraeth yn rhagweld y bydd **chwyddiant** yn cynyddu'n gyson dros y 5 mlynedd nesaf gan gyrraedd 3% erbyn 2025. Byddwch yn ymwybodol o'r effaith bosibl ar eich cyfrifon.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi ychwanegu £30m i'r Gronfa Cadernid Economaidd ar gyfer busnesau lletygarwch, hamdden a thwristiaeth. Cadwch lygad ar wefan Busnes Cymru am fanylion o unrhyw grantiau pellach.

Trethi personol

- Dim newid i gyfraddau treth incwm, Yswiriant Gwladol a TAW
- Lwfansau personol wedi'u rhewi tan 2026 ar gyfer treth incwm, treth etifeddiaeth a threth ar eiddo
- Lwfansau oes pensiwn hefyd wedi'u rhewi. Gall hyn achosi problemau i uwch reolwyr, e.e. yn y GIG.
- Dim newid i dreth tanwydd na threth alcohol
- Gall unigolion sy'n ceisio prynu eu cartref cyntaf wneud cais am forgais 95%
- Bydd bond cynilo manwerthu ar gyfer prosiectau gwyrdd ar gael yn hwyrach eleni
- Uchafswm talu digyswllt yn codi i £100 yn hwyrach yn 2021




Trethi corfforaethol

- Newidiadau sylweddol i gyfraddau treth gorfforaeth
- Cynnydd o 19% i 25% o Ebrill 2023 ar gyfer elw dros £250,000.
- Bydd cyfradd treth o 19% ar gael i gwmnïau sydd ag elw o dan £50,000.
- Bydd cyfradd o rhwng 19% a 25% ar gyfer cwmnïau sydd ag elw rhwng £50,000-£250,000.
- Gellir cario colledion o hyd at £2m yn ôl i'w hawlio yn erbyn elw o'r 3 blynedd diwethaf (hefyd ar gael i unigolion hunangyflogedig)
- Bydd costau buddsoddi yn gallu cael eu didynnu o elw cwmni trwy 'super-deduction' o 130%.



Cymorth Covid-19 - unigolion

- ***Cynllun ffyrlo*** wedi cael ei ymestyn tan ddiwedd Medi gyda cymorth o 80% o gyflogau ar gael
 - Cyfraniad cyflogwr o 10% ym mis Gorffennaf 2021
 - Cyfraniad cyflogwr o 20% ym misoedd Awst a Medi 2021
- Cynnydd wythnosol o £20 i gynllun ***Credyd Cynhwysol*** (gwerth £1,000 y flwyddyn) am 6 mis arall.
- Bydd derbynwyr ***credyd treth gwaith*** (working tax credits) yn derbyn taliad ychwanegol o £500



Cymorth Covid-19 – hunangyflogedig

- Newyddion da i'r newydd hunangyflogedig!
- Pedwerydd ***grant i'r hunangyflogedig*** ar gyfer Chwefror-Ebrill 2021 o 80% o gyfartaledd elw
 - Mae unigolion newydd hunangyflogedig a gwblhaodd ffurflen dreth 2019-2020 bellach yn gymwys
 - Grant yn agor ym mis Ebrill 2021
- Pumed ***grant i'r hunangyflogedig*** ar gyfer Mai 2021 ymlaen gyda lefelau gwahanol o gymorth:
 - 80% o gyfartaledd elw os yw trosiant wedi gostwng $\geq 30\%$
 - 30% o gyfartaledd elw os yw trosiant wedi gostwng $< 30\%$



Cymorth Covid-19 - busnes

- ***Rhyddhad ardrethi busnes*** i fusnesau yn Lloegr am 3 mis arall (gyda chyfraddau is am y 9 mis canlynol). Bydd rhyddhad ardrethi ar gael yng Nghymru hefyd (*rydym yn aros am gyhoeddiad swyddogol*).
- ***Cynllun Ailgychwyn*** yn cynnig grantiau i fusnesau sydd yn ailagor o Ebrill 2021 ymlaen o hyd at:
 - £6,000 i fanwerthwyr nad ydynt yn hanfodol
 - £18,000 i dafarndai, bwytai a salonau
- ***TAW ar gyfer lletygarwch*** yn cael ei gadw at 5% tan fis Medi ac yn cynyddu i 12.5% am y 6 mis canlynol.
- Taliad cymhelliant o £3,000 ar gael i gyflogwyr am logi ***prentisiaid*** o unrhyw oedran os cânt eu cyflogi rhwng Ebrill a Medi 2021

Cymorth Covid-19 - busnes

- ***Cymorth i Dyfu'n Ddigidol (Help to Grow Digital)***
- Talebau ar gael o hyd at 50% oddi ar gost meddalwedd newydd sy'n gwella cynhyrchiant, hyd at £5,000.
- Mynediad am ddim i gyngor ar-lein ar dechnoleg i helpu busnesau i arbed amser, lleihau costau a chyrraedd mwy o gwsmeriaid.
- Rydym yn aros am fanylion llawn ond disgwylir i'r cynllun fod yn berthnasol ar gyfer busnesau sy'n cyflogi rhwng 5 a 249 o weithwyr.
- ***Cynllun Benthyciadau Adferiad (Recovery Loans scheme)***
- Newyddion da i fenthycwyr wrth i fenthyciadau a gefnogir gan y Llywodraeth barhau.
- ***Cronfa Cadernid Economaidd***
- Llywodraeth Cymru wedi sicrhau £30m ychwanegol i fusnesau lletygarwch, hamdden a thwristiaeth.



Beth oedd ar goll?

- Dim sôn am Brexit yn y Gyllideb!
- Llywodraeth yn rhagweld bydd chwyddiant yn cynyddu'n gyson dros y 5 mlynedd nesaf, gan gyrraedd 3% erbyn 2025.
- Rhagwelir y bydd diweithdra yn cynyddu o 1.5m yn 2020 i 1.9m yn 2021, i 2.0m yn 2022 sy'n gyfradd uchel o ddiweithdra tymor hir.



Materion nodedig arall (cyn y Gyllideb)

- 1) Rhyddhad treth cyfradd uwch ar daliadau llog morgais:** 2020-2021 yw'r flwyddyn gyntaf lle nad yw'r rhyddhad yma ar gael.
- 2) Lwfans am weithio o adref:** gall unrhyw unigolyn y bu rhaid iddynt weithio o adref yn ystod 2020-2021 hawlio lwfans o £312.
- 3) Lwfans priodas:** mewn cwpl priod neu bartneriaeth sifil, lle mae un ohonoch yn ennill llai na £12,500 a'r llall yn drethdalwr cyfradd sylfaenol, gellir trosglwyddo £1,250 o lwfans personol un partner i'r llall, gan arbed £250 o dreth.
- 4) Newidiadau treth pellach:** bydd Llywodraeth y DU yn cyhoeddi nifer o ymgynghoriadau treth ar 23 Mawrth 2021.

Gwneud Treth yn Ddigidol/Making Tax Digital (MTD)

“Quite frankly MTD has been a pain.” Aelod o'r ICAEW

- 1) TAW:** bydd angen i bob cwmni sy'n gofrestredig ar gyfer TAW ddefnyddio meddalwedd sy'n cytuno â chanllawiau MTD y Swyddfa Dreth o Ebrill 2022 ymlaen.
- 2) Unigolion:** bydd angen i unigolion hunangyflogedig a landlordiaid sydd ag incwm blynyddol o dros £10,000 gyflwyno ffurflenni incwm a chostau bob cwarter o Ebrill 2023 ymlaen.
- 3) Cwmnïau:** manylion i'w cadarnhau (o Ebrill 2026 ymlaen).



Huw Aled Accountants Ltd

Huw Roberts

Chartered Management Accountant

07967 976854

huw@huwaledaccountants.com

6 Heol Alfreda Road

Yr Eglwys Newydd | Whitchurch

Caerdydd | Cardiff

CF14 2EH

Aled Wyn Thomas

Chartered Accountant

07808 798569

aled@huwaledaccountants.com

www.huwaledaccountants.com

029 2069 4524

Cwmni cofrestredig (Cymru a Lloegr): 12439787
Registered company (England and Wales): 12439787